YR AELOD CABINET DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

9 IONAWR 2025

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: J. Tremlett (Aelod o'r Cabinet)

R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes;
J.Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod - 10:00yb - 10.15yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 MEHEFIN 2024

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 24 Mehefin, 2024 yn gofnod cywir.

3. TALIADAU DIBRESWYL 2025-26

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad ar gynigion i gynyddu taliadau gofal dibreswyl y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn unol â chostau cynyddol a chwyddiant.

Nodwyd, gan fod Llywodraeth Cymru wedi gosod cap ariannol o £100 am ofal dibreswyl ni fyddai fawr o fudd mewn cynyddu taliadau y tu hwnt i chwyddiant. Fodd bynnag, er mai dim ond y cynnydd lleiaf mewn incwm i'r awdurdod y byddai chwyddiant yn ei roi, roedd yn rhaid cynyddu taliadau hanfodol i adlewyrchu costau chwyddiant.

Wrth nodi bod y ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar gyhoeddiadau presennol Llywodraeth Cymru ac nad oedd unrhyw arwydd y byddai newid yn digwydd y tu hwnt i 2025-26, efallai y bydd angen cynnydd pellach i'r taliadau pe bai Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rheolau taliadau.

Ar ben hynny, byddai'r incwm ychwanegol a gronnwyd yn dibynnu'n llwyr ar y gallu i dalu am yr unigolion sydd angen gofal, roedd yr Aelod Cabinet yn teimlo'n gryf bod angen i Lywodraeth Cymru adolygu'r cap ariannol ymhellach.

PENDERFYNWYD:

3.1 bod Sir Gaerfyrddin yn cynyddu'r taliadau dibreswyl ar gyfer gwasanaethau y codir tâl amdanynt fesul awr o £22.00 i £23.85 (%) a chynyddu'r taliadau ar gyfer gofal sesiynol o £19.55 i £23.85 (10%). Bydd hyn yn fodd o geisio adennill cymaint o refeniw â phosibl o fewn y rheolau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, ac i alinio cyfraddau ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, a symud yn agosach at Awdurdodau Lleol rhanbarthol.

3.2 bod Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno'r ffioedd yn unol â'r polisi Codi Tâl newydd sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

AELOD O'R CABINET	**DYDDIAD**